# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-07-10 (p2): 28 Ebrill 2010**

## Yr Is Bwyllgor Datblygu Gwledig Ymchwiliaid I Ddiwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin Yr UE

### Cyflwyniad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Diben

1. Diben y papur hwn yw ymateb i'r materion a godwyd gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar y safbwynt y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fabwysiadu ynghylch ffurf Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE ar ôl 2013.

### Cyflwyniad

2. Dylid esbonio ar y cychwyn nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi unrhyw gynigion ffurfiol ar gyfer cyfeiriad y PAC ar ôl 2013. Noder y bydd canlyniad adolygiad cyllideb yr UE ynghylch sefyllfa ariannol 2014-2020 yn dylanwadu ar fanylion y ffordd y bydd y PAC yn gweithredu yn y dyfodol.

3. Y disgwyl, o ran adolygiad y gyllideb, yw y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r papur yn ystod haf 2010. Mae'n debygol y bydd cynigion ynghylch y CAP gan y Comisiwn yn yr hydref.

4. Ar hyn o bryd, tua €42 biliwn y flwyddyn yw cyllideb y PAC. Dyma yw oddeutu 40 y cant o gyfanswm cyllideb yr UE.

5. Mae dwy elfen benodol i'r PAC yng Nghymru: taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan Gynllun y Taliad Sengl (colofn 1 y PAC yw'r enw arall ar hyn); a thaliadau o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 (colofn 2 y PAC yw'r enw arall ar hyn). Y Comisiwn sy'n ariannu 100 y cant o Gynllun y Taliad Sengl. Mae cyfanswm o £795 miliwn ar gael drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (2007-2013), gydag oddeutu £600 miliwn o gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

6. Yn 2009, darparodd Cynllun y Taliad Sengl oddeutu £290 miliwn i amaethyddiaeth Cymru a gwariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru oddeutu £75 miliwn ar gynlluniau targedig Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, gan gynnwys y rheini sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd.

7. At ei gilydd, mae'r taliadau hyn yn fuddsoddiad blynyddol sylweddol yn amaethyddiaeth Cymru, ac mae modd gweld eu pwysigrwydd yn y data ar incwm ffermydd. Mae'r ffigurau Incwm Busnes Fferm a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd ar gyfer 2008-2009 yn dangos mai £31,300 oedd yr Incwm Busnes Fferm ar gyfartaledd, gyda £27,400 yn dod drwy Gynllun y Taliad Sengl.

### Cefndir

8. Cytunwyd yn 2003 i ddiwygio'r PAC yn sylweddol. Cafodd hyn ei roi ar waith yng Nghymru yn 2005 (ac yng ngweddill y DU). Nid oedd taliadau uniongyrchol bellach yn gynlluniau cymorthdal ar sail cynhyrchu. Yn hytrach, roedd Cynllun y Taliad Sengl yng Nghymru yn galluogi ffermwyr Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu oedd yn adlewyrchu anghenion y farchnad ac anghenion defnyddwyr. Yn gyfnewid am hyn, roedd Cynllun y Taliad Sengl yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gydymffurfio ag ystod o faterion trawsgydymffurfio (safonau amgylcheddol, diogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid) yn ogystal â chadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Cedwir y model hwn ar gyfer Cynllun y Taliad Sengl yng Nghymru tan o leiaf 2013.

9. Roedd Cynllun y Taliad Sengl yng Nghymru yn seiliedig ar y model hanesyddol oedd yn ystyried cynhyrchiant amaethyddol a defnydd tir yng nghyfnod 2000-2002 y PAC.

10. O ran Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, roedd Rheoliad y Cyngor 1698/205 yn nodi'r darpariaethau statudol roedd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru baratoi'r manylion gweithredol ar eu cyfer, gan gynnwys fframwaith strategol lefel uchel. Roedd y Rheoliad hefyd yn nodi trefniadau cymhleth ar gyfer pedwar maes gweithredu allweddol (a elwir yn echelau) a gofynion technegol ynghylch sut y byddai cyllid yr UE yn cael ei ddosbarthu ar draws yr echelau, ynghyd â chyfraddau cydariannu rhwng adnoddau'r UE a'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

11. Ym mis Tachwedd 2009, daethpwyd i gytundeb ar lefel yr UE, o dan broses Archwiliad Iechyd y PAC, i wneud newidiadau cymharol fân i drefniadau Cynllun y Taliad Sengl o dan golofn 1, yn y modd y maent yn berthnasol i Gymru. Yn fwy arwyddocaol na hyn oedd y gofynion o dan agenda yr Her Newydd lle'r oedd angen i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru fynd i'r afael yn benodol â lleddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, rheoli carbon, pridd a dwr, cynefinoedd a bioamrywiaeth, ac ynni adnewyddadwy. Y cynllun Glastir yw ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

12. Fy nhro i nawr yw mynd i'r afael â'r materion a godwyd gyda mi gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

### Beth ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth drafod Diwygio'r PAC?

13. Rwy'n dal i fod yn gwbl gefnogol y dylid parhau â'r PAC. Mae'n amlwg i mi bod gan gyfundrefn Cynllun y Taliad Sengl rôl bwysig i'w

chwarae o ran rhoi cymorth ariannol i ffermio yng Nghymru, yn ogystal â darparu'r pecyn sylfaenol o nwyddau cyhoeddus o dan y gyfundrefn trawsgydymffurfio. I'r perwyl hwn, nid oes unrhyw anhawster i mi dderbyn yr egwyddorion sylfaenol, hirdymor sy'n gysylltiedig â'r PAC; yn gyntaf darparu bwyd i bobl ei fwyta; ac yn ail darparu incwm rhesymol i ffermwyr. Ochr yn ochr â hyn, mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn fecanwaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio gofynion cyfreithiol yr UE mewn ffordd sy'n bodloni anghenion Cymru. Yn arbennig, mae hyn yn golygu cefnogi cystadleurwydd amaethyddiaeth a choedwigaeth Cymru a galluogi'n ffermwyr i gyfrannu'n gadarnhaol i ymgymryd â gweithgareddau rheoli tir cynaliadwy sy'n cynnig manteision ehangach i gymdeithas.

14. Yng nghyd-destun ehangach yr UE:

mae ffermio'n cyfrif am 80% o dir yr UE er mai dim ond 4.7% o weithlu'r UE sy'n ffermwyr;

mae'n cynnal amrywiaeth amgylcheddol. Mae targedau newid yn yr hinsawdd eisoes wedi'u cyflawni drwy amaethyddiaeth ac mae'n gallu cynnig tipyn mwy;

mae'n gwneud yr economi wledig yn ddeinamig ac mae'n bresenoldeb sylweddol ym marchnad y byd (yr UE yw prif fewnforiwr ac allforiwr bwyd y byd); Ffermio yw'r cyflogwr mwyaf yn yr UE;

mae'n cynnig diogelwch o ran y cyflenwad bwyd, yn enwedig gan fod disgwyl i'r galw am fwyd ledled y byd ddyblu wrth i boblogaeth y byd dyfu o 6 biliwm heddiw i 9 biliwn erbyn 2050.

15. Yng Nghymru, mae ffermio'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi wledig ac mae gan y diwydiant rôl allweddol o hyd o ran cynnal cydlyniant cymdeithasol-economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru wledig. Byddaf am drafod gyda gweinyddiaethau eraill y DU faint o gyllid yr UE fydd ar gael ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru.

16. Mae'r blaenoriaethau pellach ar gyfer diwygio'r PAC yn cynnwys:

### Adolygiad Cyllideb yr UE a'r PAC

17. Mae'n debygol y bydd proses adolygiad y gyllideb yn arwain at newid blaenoriaethau ar lefel yr UE. Rwyf yn deall hefyd y gallai newid blaenoriaethau arwain at newid blaenoriaethau gwariant. Fel y nodir uchod, mae'r PAC yn cyfrif ar hyn o bryd am oddeutu 40 y cant o gyfanswm cyllideb flynyddol yr UE. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw canlyniad adolygiad cyllideb yr UE yn tanseilio gallu'r PAC i gyflawni'i egwyddorion allweddol, sef cynhyrchu bwyd a chymorth incwm.

### Cynllun y Taliad Sengl

18. Eisoes mae arwyddion clir gan y Comisiwn yn awgrymu y bydd Cynllun y Taliad Sengl yn symud i gyfundrefn daliadau fwy gwastad neu yn ôl ardal ar ôl 2013.

19. Mae fy swyddogion yn gweithio'n barhaus i asesu effaith Cynllun Taliad Sengl yn ôl ardal ar lefelau taliadau; yr effaith ar incwm ffermydd; niferoedd a chynhyrchiant da byw; rheoli tir ac effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd; a dylanwadau ehangach yn y sectorau cyflenwad amaethyddol a phrosesu cynhyrchion fferm. Yn fuan bydd modd i ni rannu'r gwaith hwn gyda'r Comisiwn, a fydd yn bwysig iawn o ran dylanwadu ar ei syniadau.

20. Yr hyn sydd eisoes yn glir yw y byddai dechrau Cynllun Taliad Sengl yn ôl ardal yng Nghymru yn arwain at ailddosbarthu derbyniadau Cynllun y Taliad Sengl yn sylweddol. Mater allweddol i Gymru yw i ba raddau y gallwn leddfu'r agweddau ailddosbarthu drwy drefniadau pontio a fyddai'n gymwys o 2014. Rwyf wedi codi'r mater penodol hwn gyda'r Comisiwn ac ymddengys, mewn egwyddor o leiaf, bod cydnabyddiaeth y bydd angen trefniadau penodol er mwyn lleihau unrhyw effeithiau wrth symud o fodel hanesyddol Cynllun y Taliad Sengl i gyfundrefn taliadau ardal.

### Symleiddio'r PAC

21. Hoffwn weld cynnydd go iawn gan y Comisiwn o ran lleihau baich rheoleiddio ar ffermio, ac ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, o'i gymharu â'r PAC cyfredol. Mae fy Adolygiad Biwrocratiaeth wedi bod yn gwneud gwaith pellach i ystyried symleiddio'r baich gweinyddu ar ffermwyr Cymru. Un o ganlyniadau cynnar y gwaith hwn yw ad-drefnu archwiliadau ffermydd.

### Mesurau'r farchnad

22. Mae angen diwygio'r PAC ymhellach i leihau'r bwlch rhwng prisiau'r UE a phrisiau marchnad y byd, gan symud i ffwrdd o fesurau sy'n camliwio masnach. Dylid defnyddio ymyriadau yn y farchnad fel y cam olaf un, ac mae angen ystyried sut gall arbenigedd rheoli risg mwy effeithiol yn y byd ffermio gyfrannu at sefydlogrwydd incwm ffermwyr. Yn ogystal, mae modd dadlau nad yw cynnal tollau mewnforio a chymorthdaliadau allforio yn gwneud rhyw lawer o ran gwneud i amaethyddiaeth yr UE weld realiti'r ffordd y mae'r farchnad fyd-eang yn gweithio. Ni all y PAC barhau i ynysu'i hun yn y dyfodol ar faterion masnachu byd-eang o fewn fframwaith Sefydliad Masnach y Byd.

### Datblygu Gwledig

23. Mae problemau yn bodoli, sef bod modd i ddull polisi yr UE sy'n cael ei lywio o'r canol danseilio'r hyblygrwydd o ran cydweddu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ag anghenion Cymru, ffermio yng Nghymru a'n cymunedau gwledig. Rwy'n rhagweld, ar ôl 2013, mai Cynllun Datblygu Gwledig Cymru fydd y mecanwaith allweddol i wobrwyo ffermwyr am fynd i'r afael â chymlethdodau agenda'r newid

yn yr hinsawdd. Hoffwn weld ffocws ar y fframwaith strategol fel cyfiawnhad am y manylion gweithredol yng Nghynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru. Ar ben hyn, mae angen mwy o hyblygrwydd gan nad wyf yn gweld rhinwedd yn llymder yr echelau cyfredol a'r ffordd y caiff cyllid yr UE ei ddosbarthu drwy'r echelau hynny.

### Pa fath o gydbwysedd ddylai fod rhwng colofn 1 a cholofn 2 y PAC?

24. Fel y nodir uchod, barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai'r gyfundrefn taliadau uniongyrchol o dan golofn 1 fod yn sylfaen dryloyw ar gyfer darparu cymorth ar gyfer incwm cynaliadwy i ffermydd yn gyfnewid am ddarparu pecyn sylfaenol o nwyddau cyhoeddus. Mewn geiriau eraill, mae trothwy trawsgydymffurfio'r PAC yn gofyn am ymateb gan y byd ffermio i fodloni disgwyliadau cymdeithas o ran safonau iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd etc. Mae'r profiad yng Nghymru o 2005 yn dangos bod ffermwyr yn ymateb i'r farchnad ac yn cynhyrchu bwyd i'r safonau ansawdd lles ac amgylcheddol uchaf, fel y mae defnyddwyr yn eu mynnu.

25. O dan golofn 2, mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn darparu cymorth targedig ar hyn o bryd i wella cystadleurwydd amaethyddiaeth a choedwigaeth, cefnogi gwerth ychwanegol ar gynnyrch ffermydd Cymru, gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, a mynd i'r afael â materion safonau byw yn ein cymunedau gwledig. Yn arbennig, mae cynlluniau rheoli tir yn galluogi ffermwyr Cymru i gynnig canlyniadau cynaliadwy sy'n llawer gwell na'r gofynion trawsgydymffurfio o dan gyfundrefn colofn 1. Nid wyf yn cytuno'i bod yn briodol ceisio codi'r safonau trawsgydymffurfio o dan golofn 1 dim ond er mwyn codi'r pwynt cychwyn ar gyfer camau rheoli tir ffermydd o dan golofn 2.

26. Dylid cydnabod bod yn rhaid i golofn 1 gynnig sylfaen UE gyfan ar gyfer cefnogi ffermio sy'n gyson o ran bodloni gofynion yn erbyn gwahaniaethu. Ar y llaw arall, mae angen bod modd i golofn 2 gynnig ystod o fecanweithiau cymorth ar gyfer cynlluniau sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion a nodwyd.

27. Mae'n amlwg bod gwahaniaethau cyllid yn bodoli ar hyn o bryd rhwng adnoddau colofn 1 a cholofn 2. I raddau, mae'r sefyllfa gyllid gymharol yn rhoi'r argraff gamarweiniol bod mesurau datblygu gwledig y tu allan i'r PAC prif ffrwd. Nid dyna yw safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Beth ddylai amcanion canolog y PAC fod ar ôl 2013:

"Colofn 1: Cynllun y Taliad Sengl "

28. Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu amaethyddiaeth ar ôl 2013 bydd angen i daliadau uniongyrchol barhau ac mae'n rhaid iddynt fod yn deg ac yn ddilys, yn effeithiol, yn syml i'w gweithredu, yn ddigon hyblyg a hawdd i'w cyfiawnhau a'u hesbonio. Mae'n bwysig hefyd taro'r cydbwysedd cywir o ran cefnogi incwm a gwobrwyo am ddarparu nwyddau cyhoeddus. Nid yw'n fater o ddewis rhwng y naill neu'r llall.

### Datblygu Gwledig

29. Y nodau allweddol o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, ynghyd â chefnogi mentrau lleol i gynnig manteision economaidd ar lefel gymunedol, yw gwella'r amgylchedd, moderneiddio, ailstrwythuro amaethyddiaeth a gwella marchnata a chystadleurwydd cynhyrchion. Mae'r gweithgareddau hyn wedi bod yn hanfodol i Gymru ers dechrau proses y Cynllun Datblygu Gwledig yn 2000. Hoffwn weld hyn yn parhau.

30. Bydd hefyd yn bwysig gweld sut gall Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru ymateb i agenda Ewrop 2020 y mae'r Comisiwn bellach yn ymchwilio iddo, yn enwedig i'n diwydiannau tir yng Nghymru mewn perthynas â gwella cystadleurwydd a sgiliau, a pha mor hawdd yw trosglwyddo'r sgiliau hynny.

### I ba raddau y dylai'r PAC fod yn bolisi cymunedol ac a yw'n ddymunol ailwladoli agweddau arno?

31. Polisi cymunedol yw'r PAC sydd â manteision ac anfanteision. Mae Cymru'n elwa ar nifer o elfennau o bolisi cymunedol fel Cronfa ddiweddar yr UE i Ffermwyr Godro, lle cyfrannodd yr UE €3.5 miliwn i helpu diwydiant godro Cymru. Mae hefyd yn elwa o safbwynt masnach yr UE gan fod yr un cyfyngiadau ar holl ffermwyr yr UE wrth gynhyrchu bwyd. Ar y llaw arall, gall rheoliadau a chyfyngiadau llym yn yr UE achosi anfantais i ffermwyr yr UE; gall gwledydd fel Brasil a Seland Newydd gynhyrchu cig oen a chig eidion yn rhatach na ffermwyr Cymru ac mae'u prisiau'n fwy cystadleuol. Er bod Cymru'n gallu cyfrannu at drafodaeth ar y PAC, ac yn gwneud hynny, mae modd i Aelod-wladwriaethau bleidleisio i orfodi rhai polisïau sy'n llai buddiol i Gymru.

32. Mae rhywfaint o drafodaeth yn digwydd ynghylch ailwladoli cyllid y PAC. Gallai hyn ddigwydd lle mae'r UE, o fewn cyllideb lai ar gyfer y PAC, yn cynnig isafswm derbyniad uniongyrchol o dan Gynllun Taliad Sengl wedi'i addasu. Cyfrifoldeb yr Aelod-wladwriaethau fyddai penderfynu a ddylid darparu cyllid domestig ychwanegol, a faint sy’n cael ei ddarparu.

33. Mae fy ymateb cychwynnol i ailwladoli'n eithaf gochelgar. Ar hyn o bryd, yr UE sy'n ariannu 100 y cant o Gynllun y Taliad Sengl yng Nghymru. Y realiti yw y byddai ailwladoli'r PAC yn golygu y byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ychwanegol i Gymru (a gweddill y DU) fel nad oes modd achosi anfantais gystadleuol i ffermwyr y DU pe bai gweddill yr UE yn symud y tu hwnt i ba bynnag isafswm derbyniad uniongyrchol o dan gyfundrefn PAC wedi'i haddasu. Gallai fod yn anodd dod o hyd i gyllid ychwanegol o'r fath o ystyried hinsawdd economaidd ac ariannol gyfredol y DU.

### I ba raddau mae strategaeth ffermio Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad’ yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r PAC ar gyfer y dyfodol?

34. Nod y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad a lansiwyd ym mis Mai 2009 yw sicrhau dyfodol cynaliadwy a phroffidiol i deuluoedd a busnesau ffermio drwy gynhyrchu a phrosesu cynhyrchion fferm a choedwigaeth. Ochr yn ochr â hyn bydd yn diogelu'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleddfu'i effeithiau, gan gyfrannu at fywyd a ffyniant ein cymunedau gwledig.

35. Mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael ag anghenion ffermio, y diwydiant bwyd a chefn gwlad mewn ffordd integredig; mae cysylltiad agos rhyngddynt ac felly mae'r strategaeth hon yn un gyffredinol mewn perthynas â strategaethau materion gwledig eraill.

36. Cafwyd arwydd cryf yn Archwiliad Iechyd y PAC na fyddai model hanesyddol y Taliad Sengl yn gynaliadwy. Drwy'r Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad, rhoddwyd ymchwil hollgynhwysfawr ar waith i asesu effaith symud i fodel taliadau yn ôl ardal, ac er na fydd y system gyfredinol yn newid nes i'r Comisiwn fynnu ar newid, byddwn yn fwy parod ar gyfer newid yn dilyn y gwaith hwnnw.

37. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn gryf ag amcanion diwygio'r PAC ac mae'n cynnig nifer o gamau i annog cynhyrchu sy'n gweddu'n fwy i'r farchnad, gan gynnwys ymestyn cwmpas brandio yn dilyn llwyddiant y Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig ar gyfer cig eidion a chig oen o Gymru. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn annog arloesi a datblygu yn y diwydiant bwyd, a bydd Cyswllt Ffermio yn cynorthwyo ffermwyr i weithredu ar y cyd. Rhaid i ffermio allu gwneud elw er mwyn bod yn gynaliadwy, ac mae'r Strategaeth Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad yn cynnwys hyrwyddo meincnodi yn helaeth, ynghyd â gwelliant technegol, gyda chymorth Cyswllt Ffermio, er mwyn i fwy o ffermwyr berfformio'n 'well na'r cyfartaledd'. Er mwyn eu cynorthwyo i ganolbwyntio ar wella busnes, mae'r baich gweinyddol yn cael ei leihau, sef y rheswm dros yr Adolygiad o Fiwrocratiaeth sy'n mynd rhagddo, ac mae'n cyd-fynd ag agenda symleiddio PAC yr UE.

38. Ym maes iechyd anifeiliaid a phlanhigion, nod y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad yw diogelu'n diwydiant rhag clefydau egsotig fel y tafod glas, yn ogystal â chlefydau endemig fel TB, gan chwilio hefyd am y potensial i wella'r gallu i olrhain, rhannu costau a systemau rhybuddio cynnar ar gyfer achosion o glefydau.

39. Y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad a osododd y sylfeini ar gyfer Glastir, sy'n seiliedig ar agenda 'her newydd' y Comisiwn ac a fydd yn cyflawni ym meysydd newid hinsawdd, rheoli dwr, bioamrywiaeth, deunyddiau adnewyddadwy ac arloesi.

40. Bydd modd diwygio'r PAC yn sylweddol dim ond os oes mwy o arloesi'n digwydd mewn ffermio. Mae'r Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad yn cynnwys 34 cam gweithredu i sbarduno arloesi, gan gynnwys camau sy'n pwysleisio ymchwil, addysg a throsglwyddo gwybodaeth. Un maes ymchwil pwysig yw cadw a chynhyrchu ynni, a gaiff ei gefnogi gyda chanlyniadau fydd yn cael eu lledaenu i ffermwyr yn gyflym. Caiff arallgyfeirio ei ailwampio a bydd ffocws newydd ar dwristiaeth y fferm.

### Sut ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'i safbwynt ar ddiwygio'r PAC?

41. Mae mecanweithiau eisoes ar waith i ymgysylltu â buddiannau ffermio a buddiannau ehangach cefn gwlad. Mae rhywfaint o waith defnyddiol wedi cael ei wneud ar y goblygiadau i Gymru a ffermio yng Nghymru o symud i Gynllun Taliad Sengl yn ôl ardal ar ôl 2013.

42. Pan fydd y pwynt yn cyrraedd lle bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyfeiriad y PAC yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n symud yn gyflym i weithio gyda'n partneriaid yng Nghymru i asesu'r goblygiadau. Bydd y broses hon yn helpu i lywio'm safbwynt o ran dylanwadu ar Lywodraeth y DU, ynghyd â gweinyddiaethau eraill y DU, ar safbwynt trafod y DU gyda'r UE.

43. Mae fy swyddogion yn parhau i drafod gyda DEFRA, yn ogystal â chynnal trafodaethau anffurfiol ar lefel yr UE. Mae angen cydnabod hefyd y bydd gan Senedd Ewrop rôl allweddol i'w chwarae o ran dylanwadu ar y drafodaeth ar ddyfodol y PAC. Mae fy swyddogion eisoes wedi bod mewn cysylltiad cychwynnol ag ASEau Cymru.

**ELIN JONES**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Ebrill 2010**